Astudiaeth o Gydnerthedd Rhwydwaith yr

A55 / A494

# Weltag CAM 2

## Crynodeb Gweithredol

Mehefin 2021

Yn gweithio ar ran
**Llywodraeth Cymru**
Working on behalf of the
**Welsh Government**

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

# Crynodeb Gweithredol

## Cefndir

Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith y byddai comisiwn yn cael ei gynnal i ymchwilio i'r dewisiadau i wella amseroedd teithiau, dibynadwyedd a chydnerthedd coridor yr A55 o Gaergybi i Post House. Byddai hyn hefyd yn cynnwys llwybrau cysylltiedig megis coridor yr A494 o Gyfnewidfa Ewloe i Drome Corner, Llwybrau Gwyro Strategol (ar gefnffyrdd) a Llwybrau Gwyro Tactegol (ar ffyrdd gwledig).

Comisiynwyd WSP gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) i gynnal Astudiaeth WelTAG Cam 1 i wella cydnerthedd rhwydwaith ffordd ddeuol yr A55/ A494 yng Ngogledd Cymru. Cwblhawyd yr astudiaeth Cam 1 ym mis Tachwedd 2017. Yn dilyn hynny, dechreuwyd ar astudiaeth WelTAG Cam 2 ym mis Mai 2018 a daeth i ben ym mis Mawrth 2020. Mae'r nodyn hwn yn crynhoi canfyddiadau'r astudiaeth ac yn nodi argymhellion ar gyfer y camau nesaf, gan gynnwys sut y gellid nodi newidiadau i'r dirwedd drafnidiaeth yng Nghymru, polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru yng nghamau nesaf yr astudiaeth.

## Perfformiad y Llwybr Presennol

I gydnabod pwysigrwydd strategol y llwybr, mae'r dull presennol o reoli'r A55 / A494 yn rhagori ar y gofynion statudol ar gyfer ffordd ddeuol wledig ac yn defnyddio nifer o ddarpariaethau a fyddai fel arfer yn gysylltiedig â rheoli traffyrdd, e.e. Canolfan Rheoli Traffig a Gwasanaeth Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru. Mae lefelau perfformiad presennol ar gyfer gweithredu'r llwybr yn bodloni neu'n rhagori ar y safonau yn gyson, fel y'u diffinnir yn Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru (WGTRMM).

Yn ystod amodau gweithredu arferol, mae'r llwybr yn perfformio'n dda ond mae rhywfaint o dagfeydd lleol yn ystod y llifoedd traffig mwyaf. Er hynny, mae'r llwybr yn agored i wendidau pan fo digwyddiadau ar y ffordd neu waith ffordd sylweddol, o ganlyniad i gyfuniad o gyfyngiadau seilwaith a thopograffig a diffyg llwybrau gwyro ymarferol. Mae'r llwybr yn agos at ei gapasiti llawn yn ystod llifoedd traffig arferol ac yn fwy na'r capasiti yn ystod oriau brig.

Er bod y rhwydwaith yn gweithredu ar lefel y gellir ei reoli ar y cyfan ar hyn o bryd, mae rhagamcanion twf traffig yn awgrymu y bydd gweithrediad arferol yn dechrau bod yn ddiffygiol yn y tymor canolig heb ymyriadau sylweddol. Felly mae'n hanfodol gweithredu'r ymyriadau tymor canolig a hirdymor arfaethedig i gynnal perfformiad presennol.

## Rheoli asedau a'r dull o ariannu

Mae ymchwil a wnaed gan Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a'r Gymdeithas Syrfewyr Sirol (CSS) wedi dangos y bydd buddsoddi llai nag 1.0% o werth ased i gynnal a chadw adeileddau yn arwain at ddirywiad hirdymor. Mae adeileddau yn rhan sylweddol o'r rhwydwaith ac yn cynrychioli mwy na 30% o gyfanswm gwerth asedau. Bydd buddsoddi llai na 0.5% o werth yr ased yn arwain at ddigwyddiadau nas cynlluniwyd. Yn hanesyddol, mae'r buddsoddiad mewn gwaith cynnal a chadw ar yr A55/A494 wedi gostwng yn is na'r lefel leiaf absoliwt hwn, ac o ganlyniad mae'r ased yn dirywio, gan arwain at lefelau cynyddol o waith cynnal a chadw ymatebol, heb ei gynllunio a fydd yn effeithio'n fwyfwy ar gydnerthedd a pherfformiad y rhwydwaith ac mae'n ddrutach yn y tymor hir. Bydd ariannu ymyriadau rheoli asedau optimaidd yn briodol ar draws y rhwydwaith trafnidiaeth ehangach (gan gynnwys yr holl fathau o asedau fel palmentydd a systemau draenio) yn helpu i gynnal a chadw a gwella cydnerthedd a dibynadwyedd y rhwydwaith.

Yn ogystal â hyn, mae'r rhaglen ariannu bresennol yn un flynyddol gydag ansicrwydd ynghylch y dyraniad cyffredinol a chyfran sylweddol o ddyraniadau cyfalaf yn cael eu darparu ar fyr rybudd yn chwarter 4. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfle i gynllunio'n rhagweithiol ar gyfer rhaglenni cynnal a chadw tymor hirach (e.e. dros 3 i 5 mlynedd), ac mae'n arwain yn aml at gyfnod arweiniol byr er mwyn i waith cynnal a chadw gyd-fynd â'r cyllid sydd wedi ei gadarnhau ei fod ar gael. Dangoswyd, trwy waith prosiect/cynnal a chadw diweddar fel uniad dec Kneeshaw Lupton ac ail-wneud gwaith gwrth-ddŵr, fod cynllunio priodol yn galluogi digon o amser i roi gwybod i randdeiliaid a'r cyhoedd, sy'n arwain at lai o adborth negyddol yn ystod y gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd.

## Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

### Astudiaeth WelTAG Cam 1

Yn ystod astudiaeth WelTAG Cam 1, nodwyd problemau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â chydnerthedd y rhwydwaith drwy ddadansoddi'r perfformiad presennol a thrwy ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid. Nodwyd cyfanswm o 33 o broblemau/cyfleoedd ledled ardal yr astudiaeth ac mae'r rhain wedi'u grwpio i nifer o themâu allweddol.

- Cyfathrebu
- Rheoli Asedau
- Galw a Chapasiti
- Rheoli Digwyddiadau
- Llwybrau Gwyro
- Yr Amgylchedd
- Teithio Cynaliadwy
- Diogelu at y Dyfodol

Cytunwyd ar amcanion yr astudiaeth drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, yn seiliedig ar y problemau a'r cyfleoedd a nodwyd a chafodd y rhain eu cyfochri â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a pholisïau lleol a chenedlaethol perthnasol eraill.

Nodwyd dros 100 o ddewisiadau posibl ar draws y themâu uchod a oedd yn cynnwys Enillion Cyflym a Dewisiadau Tymor Byr, Canolig a Hir. Arfarnwyd yr holl ddewisiadau o'u cymharu ag amcanion yr astudiaeth a meysydd arfarnu WelTAG a chynigiwyd y rhai hynny a ystyriwyd yn ddichonadwy ac a gafodd sgôr gadarnhaol yn ystod yr arfarniad ar gyfer bwrw ymlaen â nhw i WelTAG Cam 2.

Roedd y dewisiadau Enillion Cyflym yn canolbwyntio ar brosesau Llywodraeth Cymru a NMWTRA ar gyfer cyfathrebu a rheoli'r rhwydwaith; dewisiadau yr arfarnwyd y byddent yn cael effaith fuddiol ar gydnerthedd ac y byddai'n bosibl eu cyflawni o fewn cyfnod o 6 mis i ddiwedd astudiaeth WelTAG Cam 1. Mae'r dewisiadau hyn, sydd wedi'u gweithredu bellach, wedi'u cynnwys yn nhabl 1 isod:

**Tabl 1 – Dewisiadau Enillion Cyflym a weithredwyd a'r buddion cysylltiedig**

| **Dewis (Rhif y Dewis)** | **Buddion** |
|---|---|
| Teledu Cylch Cyfyng Di-wifr (S7b) | Mae'n rhoi rhagor o oruchwyliaeth i'r Ganolfan Rheoli Traffig o fannau lle ceir llawer o dagfeydd er mwyn gallu nodi ac ymateb i ddigwyddiadau yn gyflymach. |
| Meddalwedd Darganfod Digwyddiadau Teledu Cylch Cyfyng (S3) | Mae'n tynnu sylw staff gweithredol at dagfeydd a digwyddiadau ar y rhwydwaith yn awtomatig gan eu galluogi i'w nodi ac ymateb iddynt yn gyflymach. Yn cael ei dreialu ar Ynys Môn ar hyn o bryd. |
| Prynu INRIX - Data Cerbyd Symudol Amser Real (S4) | Prynu data INRIX i ddarparu gwybodaeth amser real am draffig i helpu i gefnogi sawl dewis sy'n ymwneud â rheoli'r rhwydwaith, cyfathrebu a'r dadansoddiad o berfformiad. |
| Tîm Cyfathrebu Gwell (S28) | Mae ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyfryngau a'r cyhoedd wedi gwella canfyddiad pobl o sut y caiff y rhwydwaith ei reoli trwy drosglwyddo gwybodaeth amser real drwy'r cyfryngau cymdeithasol i'r cyhoedd sy'n teithio. Mae hyn wedi bod ar gyfer digwyddiadau a gwaith sydd wedi'i gynllunio. |
| Arwyddion Negeseuon Electronig Symudol (S6b) | Wedi'u gosod mewn mannau lle ceir llawer o ddigwyddiadau i roi gwybodaeth a negeseuon diogelwch wrth ymyl y ffordd i yrwyr. |

| Dewis (Rhif y Dewis) | Buddion |
|---|---|
| Gwasanaeth Achub Cerbydau Am Ddim mewn Mannau Lle Ceir Llawer o Ddigwyddiadau (S16b) | Cwblhawyd cynllun treialu ar hyd yr A55 a'r A494, gan 2 uned, un yn C34 ac un yn C23 er mwyn lleihau effaith cerbydau sydd wedi torri i lawr cymaint â phosibl. Roedd hyn dros bob gŵyl banc yn 2018. |
| Ymestyn Gweithrediad Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru (S36); a Thimau Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru ychwanegol (S37) | Mae oriau gweithredu gwasanaeth Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru wedi'u haddasu i newid i batrwm sifft 12 awr ac 4 yn fwy o aelodau staff, sydd wedi galluogi'r gwasanaeth i ymestyn i goridor cyfan ffordd ddeuol yr A55 a'r A494. Yn sgil hyn mae amseroedd ymateb wedi gwella a cheir mwy o gwmpas a chynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n cael eu trin gan Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru yn unig. |
| Amserlen Ffyrdd (S83) | Sefydlwyd Amserlen Ffyrdd i gynghori cwsmeriaid ar amseroedd teithiau nodweddiadol yn y dyfodol ac amodau traffig amser real, er mwyn eu galluogi i gynllunio. Mae'r Amserlen Ffyrdd ar gael ar wefan Traffig Cymru bellach. |
| Gorfodaeth Cyflymder Cyfartalog ar Allt Rhuallt (S85) | Mae cyflymderau amhriodol yn cyfrannu at ryw 11% o'r holl wrthdrawiadau lle ceir anafiadau a adroddir wrth yr heddlu, 15% o'r gwrthdrawiadau sy'n achosi anaf difrifol a 24% o'r gwrthdrawiadau sy'n achosi marwolaeth. Mae gosod camerâu cyflymder cyfartalog yn y lleoliad hwn wedi lleihau yn sylweddol ganran y cerbydau sy'n teithio ar fwy na 70mya o 55% i 3%. Mae cyflymder cyfartalog yn y lleoliad hwn wedi gostwng ac mae 96% o'r cerbydau bellach yn teithio ar 70mya neu lai o'i gymharu â dim ond 45% cyn gweithredu camerâu cyflymder cyfartalog. |

**Astudiaeth WelTAG Cam 2**

Mae WelTAG Cam 2 (Achos Busnes Amlinellol) wedi archwilio, mewn mwy o fanylder, sut y mae pob dewis yn perfformio o'i gymharu ag Amcanion yr Astudiaeth (wedi'i gyfochri â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol) yn ogystal ag egwyddorion sylfaenol WelTAG sef datblygiad yr economi, yr amgylchedd, cymdeithasol a diwylliannol.

Yn ystod astudiaeth WelTAG Cam 2, ymgynghorwyd yn gynhwysfawr â rhanddeiliaid er mwyn casglu eu safbwyntiau ar y problemau presennol a'r dewisiadau arfaethedig. Mae mwy na 30 o sefydliadau sy'n rhanddeiliaid wedi cyfrannu at ddatblygiad yr astudiaeth drwy 13 o weithdai, gan arwain at fwy na 1,000 o oriau ymgysylltu â phobl yn ystod yr astudiaeth hyd yn hyn.

Mae Astudiaeth Cam 2 wedi dod i'r casgliad y gellir dosbarthu'r dewisiadau i'r grwpiau canlynol:

- Dewisiadau i'w gweithredu fel Dewisiadau Tymor Byr (y bydd angen eu cymeradwyo cyn cwblhau astudiaeth Cam 2 er mwyn gallu eu cyflawni erbyn mis Mai 2019)
- Dewisiadau i'w dileu rhag cael eu hystyried ymhellach;
- Dewisiadau y mae angen rhagor o ymchwil iddynt;
- Dewisiadau i'w trosglwyddo i bartïon eraill; a
- Dewisiadau i'w hystyried ymhellach.

Crynhoir isod y dewisiadau sy'n ffurfio pob un o'r grwpiau uchod:

## Dewisiadau a weithredwyd yn y Tymor Byr (erbyn Mai 2019)

Yn sgil yr amserlen ar gyfer gweithredu Dewisiadau Tymor Byr, erbyn mis Mai 2019, roedd angen cadarnhau addasrwydd a derbynioldeb y dewisiadau hyn cyn cwblhau astudiaeth Cam 2. Mae'r ymgysylltu cadarnhaol a wnaed trwy gydol yr astudiaeth wedi gallu nodi cyfres o ddewisiadau i'w gweithredu yn y tymor byr. Nodir manylion y dewisiadau hyn a'u buddion yn Nhabl 2 isod. Pan na allwyd gweithredu dewisiadau Tymor Byr a nodwyd yn unol â'r amserlen a nodwyd (e.e. gwaith ychwanegol yn ofynnol cyn eu gweithredu), nodwyd diweddariad ar eu statws:

**Tabl 2 – Dewisiadau Tymor Byr a weithredwyd a'u buddion cysylltiedig**

| Dewis (Rhif y Dewis) | Buddion | Dyddiad gweithredu | Cwblhawyd / statws |
|---|---|---|---|
| Templedi a Negeseuon Ymgyrchoedd Unedau Negeseuon | I ddarparu gwybodaeth effeithiol ac ystyrlon am draffig i'r cyhoedd sy'n teithio, gan gynnwys amseroedd teithiau byw, amodau ar y ffyrdd a negeseuon | 01/08/2018 | Gweithredwyd yn rhan o Dîm Cyfathrebu Estynedig S28 |

| Dewis (Rhif y Dewis) | Buddion | Dyddiad gweithredu | Cwblhawyd / statws |
|---|---|---|---|
| Electronig (VMS) (S6c) | ymgyrchoedd, i wella profiad cwsmeriaid. | | |
| Gwybodaeth Fyw am Amseroedd Teithiau (S5) | Defnyddio gwybodaeth amser real yn sail i amseroedd teithiau ar gyfer y cyhoedd sy'n teithio i lywio penderfyniadau a gwella profiad cwsmeriaid. | 24/04/2019 | Gweithredwyd |
| Cynnal a Chadw Gwell yn y Gaeaf (S24) | Cerbydau graeanu penodol ychwanegol ar gyfer Allt Rhuallt i gynorthwyo gwaith cynnal a chadw yn y gaeaf ar y darn hwn o'r A55 sy'n agored i broblemau, gan wella cydnerthedd a lleihau'r perygl y bydd digwyddiadau ar hyd y darn hwn. | 30/11/2018 | Gweithredwyd |
| Ymgyrch Ymddygiad Gyrwyr (S86) | Ymgyrch ddiogelwch wedi'i thargedu, dan arweiniad Tîm Cyfathrebu Gwell NMWTRA, drwy lwyfannau cyfryngau ac arwyddion negeseuon ar ochr y ffordd i wella ymddygiad gyrwyr a lleihau digwyddiadau. | 01/08/2018 | Gweithredwyd yn rhan o Dîm Cyfathrebu Estynedig S28 |
| Targedau a Dadansoddiad Perfformiad (S15 a S65) | Defnyddio gwybodaeth amser real i bennu targedau perfformiad ar gyfer y rhwydwaith a gwerthuso effaith y gwaith a pherfformiad cynlluniau i sicrhau gwelliant a monitro gwasanaeth yn barhaus. | S15 – 01/01/2020<br>S65 – Amh. | Gweithredwyd S15 yn rhan o Gynllunio Lle ar y Ffyrdd Estynedig S81 (01/01/2020). Dilëwyd S65 o blaid Amserlen Ffyrdd S83. |

| Dewis (Rhif y Dewis) | Buddion | Dyddiad gweithredu | Cwblhawyd / statws |
|---|---|---|---|
| Monitro Gwasanaethau (S43) | Hyfforddiant/cyflogaeth wedi'i thargedu i gynnal dadansoddiad mwy cadarn o ddata i gefnogi gwelliannau i drefnau a strategaethau cynnal a chadw. | Amh. | Ni weithredwyd yn rhan o Astudiaeth Cydnerthedd Rhwydwaith yr A55 - Dewis LIC |
| Gweithdrefnau Gweithredu Llwybrau Gwyro Gwell (S73) | Datblygu gweithdrefnau gwell ar gyfer gweithredu llwybrau gwyro ar ôl digwyddiad. | Amh. | Symudwyd i'r Tymor Canolig |
| Cynlluniau Rheoli Traffig Llwybrau Gwyro Gwell (S76) | Cynlluniau wedi'u safoni ar gyfer gweithredu trefn o gau'r rhwydwaith i ganiatáu ymateb cyflymach i ddigwyddiadau a gostwng costau. | Amh. | Symudwyd i'r Tymor Canolig |
| Arwyddion Symbol Strategol (S74) | Gosod arwyddion parhaol i nodi llwybrau gwyro strategol er mwyn gallu eu gweithredu'n gyflymach a gwella profiad gyrwyr. | Amh. | Symudwyd i'r Tymor Canolig |
| Arwyddion Symbol Tactegol (S75) | Gosod arwyddion parhaol i nodi llwybrau gwyro tactegol er mwyn gallu eu gweithredu'n gyflymach a gwella profiad gyrwyr. Bydd angen cytuno ar hyn ag Awdurdodau Lleol. | Amh. | Symudwyd i'r Tymor Canolig |
| Gwell Cynllunio Ffyrdd (S81) | Gwella'r broses o gydgysylltu gwaith cynnal a chadw ymhlith yr holl randdeiliaid perthnasol i ddarparu arbedion a lleihau tarfu. Byddai angen cyllid ar y dewis | 01/01/2020 | Gweithredwyd ynghyd â Thargedau Perfformiad S15 – Platfform |

| Dewis (Rhif y Dewis) | Buddion | Dyddiad gweithredu | Cwblhawyd / statws |
|---|---|---|---|
| | hwn er mwyn cadarnhau gwaith sylweddol a gynlluniwyd yn ddigon ymlaen llaw er mwyn gallu cynllunio a hysbysu. | | Dadansoddeg Fusnes |
| Gwelliannau Gweithredol ar Bont Britannia (S94) | Darparu marciau lôn ac arwyddion i atal goddiweddyd a lleihau'r perygl y bydd digwyddiadau; arwyddion Rheoli Traffig Dros Dro parhaol i leihau'r amser y mae'n cymryd i gau'r bont pan fydd gwyntoedd cryfion; ac arwyddion gwahardd cerddwyr i wella diogelwch defnyddwyr y ffordd a cherddwyr. | 01/01/2020 | Gweithredwyd |
| Achub Cerbydau (S16a) | Byddai Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru yn cael symud cerbydau i ffwrdd o safle digwyddiad pan fyddant yn achosi perygl neu rwystr, gan wella dibynadwyedd amseroedd teithiau a lleihau hyd digwyddiadau. | Amh. | Treialwyd (Mai 2018) ac roedd yn aneffeithiol. Dilëwyd ar ddechrau WelTAG Cam 3 |
| Gwella Gweithrediad Mannau Croesi Mewn Argyfwng (ECP) (S46) | Gwella protocolau gweithredol rhyngasiantaethol er mwyn gallu defnyddio ECP yn fwy effeithiol. | 31/05/2019 | Gweithredwyd |
| Ap Ffonau Clyfar Rheoli | Meddalwedd ar ap er mwyn gallu adrodd am ddigwyddiadau a chyflwr asedau yn gyflymach i | Tach 2018 | Gweithredwyd |

| Dewis (Rhif y Dewis) | Buddion | Dyddiad gweithredu | Cwblhawyd / statws |
|---|---|---|---|
| Digwyddiadau ac Asedau (S1/S2) | leihau'r effaith ar gydnerthedd y rhwydwaith. | | |
| Cyfrifoldeb Staff Gwell (S39) | Mae rheolwyr tîm gweithredol wedi'u penodi i gyfarwyddo gweithrediadau o'r Ganolfan Rheoli Traffig er mwyn gallu ymateb i ddigwyddiadau yn gyflymach. | 03/01/2018 | Gweithredwyd |
| Contractwr i Roi Wyneb newydd ar Ffyrdd mewn Argyfwng (S98) | Gallu contractwr arbenigol i ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau sylweddol pan fo angen wyneb newydd ar y gerbytffordd gan alluogi'r rhwydwaith i adfer yn gyflymach. | Amh. | Symudwyd i'r Tymor Canolig |

## Dewisiadau i'w dileu

Argymhellir dileu y dewisiadau canlynol rhag cael eu hystyried ymhellach. Er bod gan bob dewis reswm dros ei ddileu, gellir cyffredinoli'r rhain fel rhai sydd un ai:

- yn methu â chyfrannu'n ddigon cadarnhaol ar draws meysydd llesiant ac at amcanion yr astudiaeth;
- yn perfformio'n llai ffafriol wrth eu cymharu â mesurau eraill tebyg; neu
- sy'n groes i gynlluniau eraill yr ymrwymwyd iddynt, neu sy'n cael eu disodli ganddynt.

Nid oes unrhyw ddewisiadau dan themâu cyfathrebu, teithio cynaliadwy na diogelu at y dyfodol wedi eu dileu ar y cam hwn.

**Tabl 3 – Dewis i'w ddileu**

| Dewis (Rhif y Dewis) | Rheswm dros ei ddileu |
|---|---|
| Atalfeydd concrit yn y llain ganol ar hyd llwybr cyfan yr A55/A494 ac eithrio Pont Britannia a'r twneli (S59b) | Mae rhan Ynys Môn o'r rhwydwaith yn perfformio'n dda ar hyn o bryd o ran cydnerthedd, felly mae dewis 59a, sy'n cynnig gosod atalfeydd concrit ar hyd y |

| **Dewis (Rhif y Dewis)** | **Rheswm dros ei ddileu** |
| --- | --- |
| | rhwydwaith cyfan, ac eithrio Ynys Môn, yn disodli'r dewis hwn. |
| Trydedd Lôn a Llain Galed A55 C35 (Dobshill) – C36a (Brychdyn) (S56a)<br><br>Trydedd Lôn sy'n Wibffordd (mewn lleoliadau lle ceir llawer o dagfeydd) (56b)<br><br>Trydedd Lôn sy'n Wibffordd (i'r rhwydwaith cyfan) (56c)<br><br>3 lôn i C23 (Llanddulas) o'r ffin (56j)<br><br>Safonau Traffyrdd (S104)<br><br>Ystyried Ffyrdd Wrth Gefn (S110) | Er y byddai'r dewisiadau hyn yn arwain at fwy o gapasiti a chydnerthedd, mae'r tarfu ar ddefnyddwyr y ffordd, cymunedau lleol a'r dirwedd/amgylchedd, yn ystod ac ar ôl y gwaith adeiladu, yn drech na'r buddion y byddent yn eu darparu.<br><br>Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar y prosiectau dros gyfnod estynedig; byddent yn debygol o ddenu gwrthwynebiad a heriau sylweddol wrth eu datblygu; a byddent yn achosi llawer o oedi a tharfu ar ddefnyddwyr y ffordd wrth eu gweithredu. Mae'r dewisiadau hyn wedi eu dileu o blaid y dewis gwibffordd dwy lôn (S56), sy'n darparu buddion ar raddfa fawr, llai o effaith ar yr amgylchedd cyfagos, ac mae'n fwy cyflawnadwy a derbyniol i randdeiliaid. |
| Tasglu'r A55 (S101) | Yn dilyn rhagor o ymgynghori, ystyrir bod camau ar wahân eisoes yn ymdrin â diben y tasglu, gan gynnwys cyfarfodydd cydgysylltu/cydlynu o bryd i'w gilydd â rhanddeiliaid allweddol fel Llywodraeth Cymru, yr heddlu ac Awdurdodau Lleol. |
| Cynyddu Cyfyngiadau Cyflymder (S82) | Byddai gweithredu'r dewis hwn yn lleihau diogelwch defnyddwyr y ffordd yn sylweddol yn y lleoliadau arfaethedig. |
| System Well o Gyfeirio at Leoliadau Cyffredin (S13) | Mae pyst nodi pellter eisoes ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhwydwaith sy'n gwneud y dewis hwn yn ddiangen yn ymarferol. |

| **Dewis (Rhif y Dewis)** | **Rheswm dros ei ddileu** |
|---|---|
| Cilfannau Penodol i Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru / Heddlu (S38) | Yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid, penderfynwyd bod patrolau symudol yn fwy dymunol nag arsylwi yn yr unfan felly dilëwyd y dewis hwn. |
| Ymestyn Asesiad Risg Dynamig Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru (S40) | Gallai galw cynyddol ar Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru arwain at benderfyniadau afresymol. Yn hytrach, argymhellir y dylid penodi Rheolwyr Tîm Gweithredu (S39) i wneud penderfyniadau gweithredol. (mae Rheolwyr Tîm Gweithredu ar waith bellach). |
| Darparu Llain Galed (mewn lleoliadau lle ceir llawer o ddigwyddiadau) (S56d)<br><br>Darparu Llain Galed (ar y rhwydwaith cyfan) (S56e) | Mae creu mannau lloches mewn argyfwng, sy'n rhan o'r dewis gwibffordd dwy lôn (S56), yn ddewis amgen a ffefrir o'i gymharu â hwn a byddai llai o darfu ar gymunedau, y cyhoedd sy'n teithio (yn ystod y gwaith adeiladu) a'r amgylchedd. |
| Darparu arwyddion gwybodaeth electronig di-wifr i yrwyr ar Lwybrau Gwyro Strategol (S77) | Mae'r dewis hwn yn rhoi buddion gweithredol ychwanegol pan fo angen llwybrau gwyro, ond byddai'n achosi costau llawer uwch o gymharu â'r Arwyddion Symbol Strategol (S74) sy'n darparu buddion tebyg ac sydd â llai o effaith negyddol ar ardal y parc cenedlaethol. |
| Darparu teledu cylch cyfyng di-wifr ar Lwybrau Gwyro Strategol (S78) | Mae angen buddsoddiad sylweddol ar hwn dros gyfnod estynedig, ond mae mathau eraill o dechnoleg h.y. data amser real INRIX (S83) ar gael erbyn hyn i nodi mannau lle ceir llawer o broblemau cyn agor llwybrau gwyro. |
| Llwybr Gwyro Strategol 18 a 19 Ffordd Osgoi Llanrwst (S79a) | Byddai angen buddsoddiad ariannol sylweddol ar y gwelliannau Llwybrau Gwyro Strategol hyn a byddai ond yn gwella rhannau byr o'r llwybrau gwyro yn |

| Dewis (Rhif y Dewis) | Rheswm dros ei ddileu |
|---|---|
| Llwybr Gwyro Strategol 17 A470 - Lledaenu'r Ffordd i'r De o Bont Waterloo (S79b)<br><br>Llwybr Gwyro Strategol 19 A494 - Lledaenu'r ffordd a newid i flaenoriaeth cyffordd (S79c)<br><br>Llwybr Gwyro Strategol 19 A494/A5104 ailfodelu'r gyffordd (S79d) | hytrach na gwella cydnerthedd yr A55/A494 yn uniongyrchol.<br><br>Pe byddai unrhyw un o'r dewisiadau llwybrau gwyro hyn yn cael eu datblygu y tu allan i astudiaeth Cydnerthedd yr A55/A494, gellid cynnwys y buddion a nodwyd i lwybrau gwyro'r A55/A494 i gefnogi achosion busnes. |
| Llwybr Gwyro Strategol 17 a 18 A5/A470 Mannau Trefol - Rhagor o gyfyngiadau parcio ar y stryd (S79e) | Gallai cyfyngiadau parcio effeithio'n negyddol ar fusnesau mewn cyrchfannau allweddol i dwristiaid. Pan nodir materion penodol o ran parcio dylid ymdrin â hyn ar lefel awdurdod lleol; byddai gwrthwynebiad yn debygol; ac ni fyddai'n gwella cydnerthedd yr A55/A494 yn uniongyrchol. |
| Cynyddu Unedau Negeseuon Electronig (VMS) ar hyd yr A55 a'r A494 rhwng pob cyffordd (S80) | Gellir cymharu buddion y dewis hwn â'r rhai a gyflawnir gan y dewis 'Mewnlenwi Strategol Arwyddion Negeseuon Electronig' (S6a), a ffefrir. |
| Llwybr Gwyro Newydd A55 C12 - C14 Gwella'r Ffordd Rufeinig (S88a)<br><br>Llwybr Gwyro Newydd A55 C12 - C14 – Llwybr Paralel Newydd (S88b) | Mae'r dewis hwn wedi'i ddileu gan fod Llywodraeth Cymru, yn ystod cyfnod yr astudiaeth hon, wedi cyhoeddi cynlluniau i wella'r rhan hon o dan gynllun arall. |

## Dewisiadau y mae angen rhagor o ymchwil iddynt cyn WelTAG Cam 3

Nodir y dewisiadau canlynol i wneud rhagor o ymchwil iddynt. Er bod gan bob dewis ei reswm ei hun dros ohirio penderfyniad ar y cam hwn, gellir cyffredinoli'r rhain fel rhai y mae angen un ai:

- Cydgysylltu eto â rhanddeiliaid allweddol, fel Heddlu Gogledd Cymru, i benderfynu i ba raddau y maent yn debygol o gefnogi a hysbysu'r achos busnes; neu

- Asesiad manylach o'r dewis i nodi tueddiadau tebygol mewn gwelliannau technegol yn ystod y cam gweithredu; neu
- Adolygiad o angen achos busnes ar ôl cadarnhau y cynlluniau eraill yr ymrwymwyd iddynt (h.y. Trydedd Bont Menai)

**Tabl 4 – Dewisiadau y mae angen rhagor o ymchwil iddynt cyn WelTAG Cam 3**

| Dewis (Rhif y Dewis) | Rheswm dros angen rhagor o ymchwil |
|---|---|
| Monitro Asedau Uwch Dechnoleg (S22) | Argymhellir y dylid monitro datblygiadau yn y maes a gweithredu pan fydd yr achos busnes a'r rheoliadau (h.y. Rheoliadau Hedfan Sifil ar gyfer defnyddio dronau) yn dod i rym. |
| Adolygu Statws Arbennig C17 i C23 yr A55 (S97) | Bydd angen cydgysylltu newidiadau i statws ffordd arbennig ag unrhyw argymhellion eraill a gaiff eu datblygu ar ôl astudiaeth WelTAG Cam 3 |
| Ymestyn Gweithrediad Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru i 24 awr (S36a) | Awgrymir rhagor o ymchwil i'r dewis hwn ar ôl cael canlyniadau ymestyn gweithrediad Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru (S36). |
| Synwyryddion pwysau yn symud a synwyryddion pwysedd teiars (S100)<br><br>Rhagor o Orfodi Drwy ANPR (S105)<br><br>Darparu Safleoedd Pontydd Pwyso (S107) | Cyn gweithredu'r mesurau hyn, byddai angen ymgynghori eto ag asiantaethau gorfodi i sicrhau bod technoleg o'r fath yn cyd-fynd â'u hanghenion. |
| Gwella llwybrau gwyro tactegol "mannau cul" ar sail wedi'i blaenoriaethu (S113) | Gan na fyddai'r dewis hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar gydnerthedd yr A55/A494, cynigir y byddai angen ystyried mesurau o'r fath yn fwy a hynny y tu allan i'r astudiaeth hon. |

| Dewis (Rhif y Dewis) | Rheswm dros angen rhagor o ymchwil |
|---|---|
| Technoleg Ffordd Glyfar – Mannau Gwefru Cerbydau Trydan (S9a) | Ystyrir bod nifer presennol y mannau gwefru cerbydau trydan ar y llwybr, neu'n agos iddo, yn ddigonol ar gyfer y defnydd presennol o gerbydau trydan ac ni ystyrir bod angen gweithredu ar unwaith. Mae swyddogion wedi cadarnhau bod darparu mannau gwefru cerbydau trydan yn fater ar gyfer strategaeth genedlaethol a defnyddir y strategaeth honno i benderfynu ar y gofynion ar hyd yr A55/A494. |
| Technoleg Ffordd Glyfar – Ffordd Solar (S9b) | Nid yw'r dechnoleg hon wedi'i phrofi yn helaeth yn y DU a cheir perygl sylweddol y bydd technoleg yn newid gydag amser. Argymhellir monitro'r dewis hwn dros y blynyddoedd nesaf a'i adolygu yn ddiweddarach. |
| Technoleg Ffordd Glyfar - Trosglwyddo Pŵer Di-wifr (S9c) | Tan fod cerbydau trydan yn dod yn nodwedd prif ffrwd ac mae technoleg yn datblygu, ni fyddai ei weithredu ar unwaith yn cynnig llawer i wella cydnerthedd y rhwydwaith. |
| Coridor Cerbydau Cysylltiedig (S10) | Monitro datblygiad cynlluniau treialu sydd ar waith mewn mannau eraill i benderfynu a yw'n bosibl gwireddu'r dyhead hwn ar gyfer cerbydau awtonomaidd a lled-awtonomaidd yn y dyfodol o fewn y 10 i 15 mlynedd nesaf. |
| Gwella Pontydd Troed i Ddefnyddwyr Heblaw Modurwyr (S67c) | Argymhellir y dylid cynnwys y dewisiadau hyn mewn pecyn ehangach o gamau i'w cyflawni gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â gwell cyfleusterau i ddefnyddwyr heblaw modurwyr, gwella llif traffig a gwella capsiti. |

| Dewis (Rhif y Dewis) | Rheswm dros angen rhagor o ymchwil |
|---|---|
| Pont Britannia - Camau Lliniaru yn ystod Gwyntoedd Cryfion (S47)<br><br>Pontydd arwyddion ar Bont Britannia i Reoli Cyflymder a Thraffig (S91)<br><br>Taflwyr Gwynt ar Bont Britannia (S92) | Byddai'r dewisiadau hyn yn darparu buddion posibl i gydnerthedd y rhwydwaith ar draws Pont Britannia, ond pe byddai Trydedd Bont y Fenai yn cael ei hadeiladu, byddai llai o angen am y gwelliannau hyn. Cynigir y dylid gohirio'r dewisiadau hyn, yn amodol ar gael cadarnhad bod Trydedd Bont y Fenai yn datblygu. |

## Dewisiadau i'w trosglwyddo i gael eu cyflawni gan eraill

Mae'r dewisiadau canlynol wedi'u nodi fel rhai a fyddai'n fwy addas i'w hystyried ymhellach gyda sefydliadau eraill. Mae'r mesurau hyn y tu allan i gylch gwaith sefydledig Asiant Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru ac er bod y mesurau hyn wedi dangos y byddai budd cyffredinol i gydnerthedd y rhwydwaith, byddai'n fwy addas i eraill hybu eu datblygiad a'u gweithrediad.

Y cydweithredwyr tebygol yw:

- Awdurdodau Lleol;
- Trafnidiaeth Cymru; a
- Llywodraeth Cymru – Prosiectau Sylweddol.

**Tabl 5 – Dewisiadau i'w trosglwyddo i eraill**

| Dewis (Rhif y Dewis) | Rheswm dros eu trosglwyddo i eraill |
|---|---|
| Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus (S64) | Byddai'n ddoeth i TrawsCymru ddatblygu'r cysyniad o wasanaeth bws cyflym ac i Trafnidiaeth Cymru gysylltu'r safleoedd parcio a rhannu posibl i'w strategaeth. |
| Gwella croesfannau i ddefnyddwyr heblaw modurwyr - Cyfnewidfa Glan Conwy (S67b) | Cynigir gwella'r ddarpariaeth i ddefnyddwyr heblaw modurwyr yn rhan o brosiect ar wahân i wella Cyfnewidfa Glan Conwy sy'n cael ei gyflawni gan NMWTRA. |

| Dewis (Rhif y Dewis) | Rheswm dros eu trosglwyddo i eraill |
|---|---|
| Hybu trafnidiaeth gynaliadwy - gwella capasiti a gwaith ar y cyd rhwng gwasanaethau e.e. tocynnau integredig (S111) | Argymhellir y dylai sefydliadau fel TrawsCymru a Trafnidiaeth Cymru ddatblygu'r cysyniad hwn i sefydlu achos busnes cadarn ar gyfer gweithredu'r dewis hwn i'w ddatblygu ymhellach yn rhan o brosiect Metro'r Gogledd. |
| Diogelu rhag Erydu Arfordirol (S109) | Argymhellir y dylai NMWTRA a Llywodraeth Cymru weithio ar y cyd ag Awdurdodau Lleol a Network Rail i sicrhau y diogelir y coridor trafnidiaeth. |
| Twnnel Newydd Penmaenbach (S87)<br>Traphont Forol Tua'r Dwyrain Penmaenbach (S90) | Mae'n ddoeth rhoi rhagor o ystyriaeth i'r dewisiadau hyn gydag unrhyw atebion amrywiol eraill fel astudiaeth fanwl i'w chyflawni o dan Gynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. |
| Cynllunio nenbontydd i atal digwyddiadau hunan-niweidio (S106) | Er y cydnabyddir bod digwyddiadau o'r fath yn achosi cyfnodau estynedig o oedi a thagfeydd, awgrymir y dylid trosglwyddo'r dewis hwn i Lywodraeth Cymru ymchwilio iddo – gan fynd i'r afael o bosibl â phroblemau iechyd (atal) yn hytrach na'u lliniaru drwy newidiadau seilwaith. |

## Dewisiadau Tymor Canolig a Hir i'w hystyried ymhellach

Mae'r dewisiadau tymor canolig a hir a nodwyd i'w hystyried ymhellach wedi'u crynhoi yn Nhabl 6 isod. Er eu bod eisoes wedi'u gweithredu, neu ar fin cael eu gweithredu, dylai dewisiadau Enillion Cyflym a Thymor Byr gael eu cynnwys yn astudiaeth WelTAG Cam 3 hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac i nodi'n llawn fuddion cydnerthedd cronnol yr astudiaeth.

**Tabl 6 – Dewisiadau Tymor Canolig a Hir i'w Hystyried Ymhellach**

| **Dewis (rhif y dewis)** | **Canolig** | **Hir** | **Rheswm dros eu datblygu** |
|---|---|---|---|
| Prosesau Adolygu a Gwella Cynnal a Chadw (S19) | Canolig | | Gweithdrefnau gweithredu gwell i wella perfformiad, darparu arbedion gweithredol a chyflymu prosesau gwneud penderfyniadau. |
| Gwaith Cynnal a Chadw Ataliol (S20) | Canolig | | Byddai'r dewis hwn yn helpu i leihau dirywiad yr asedau presennol drwy eu cynnal a'u cadw yn rheolaidd a lleihau gwaith cynnal a chadw brys; gan ganiatáu i waith gael ei gynllunio a lleihau'r tarfu ar y rhwydwaith. |
| Mannau Defnydd All-lein (S21) | Canolig | | Lleihau'r angen i gau lonydd byw ar gyfer gwaith archwilio a chynnal a chadw, gan leihau perygl i weithwyr cynnal a chadw a lleihau costau rheoli traffig ac oedi cysylltiedig â thraffig. |
| Monitro Asedau Uwch Dechnoleg (S22) | Canolig | | Byddai defnyddio technoleg i fonitro asedau yn helpu i osgoi'r angen i leoli staff ar y briffordd, yn lleihau achosion o reoli traffig a'r costau a'r oedi cysylltiedig i draffig. |
| Gwaith Cynnal a Chadw ar y Llwybr (S23) | Canolig | | Byddai cyflawni gwaith mewn rhannau yn hytrach na fesul math o ased yn lleihau achosion o orfod cau ardal dro ar ôl tro, byddai arbedion o ran cost a byddai'n lleihau achosion o reoli traffig ac oedi. |

| Dewis (rhif y dewis) | Canolig | Hir | Rheswm dros eu datblygu |
|---|---|---|---|
| Manyleb Asedau Hirdymor (S26) | Canolig | | Byddai defnyddio deunyddiau a chynhyrchion ag oes dyluniad estynedig yn lleihau amledd cynlluniau cynnal a chadw'r briffordd a'r tarfu cysylltiedig. |
| Rhaglen Ariannu (S44) | Canolig | | Mae'r rhaglen ariannu bresennol yn un flynyddol a cheir ansicrwydd ynghylch y dyraniad cyffredinol a chyfran sylweddol o ddyraniadau cyfalaf sy'n cael eu darparu ar fyr rybudd yn chwarter 4. Byddai rhaglen ariannu tymor hirach (e.e. dros 3 i 5 mlynedd) yn rhoi cyfle i gynllunio'n rhagweithiol ar gyfer rhaglenni cynnal a chadw tymor hirach, gan arwain at well gydnerthedd a llai o adborth negyddol yn ystod gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd. |
| Atalfeydd Concrit yn y Llain Ganol mewn Lleoliadau sy'n Agored Iawn i Wrthdrawiadau Traffig Ffordd (S59a) | Canolig | | Er y byddai'r gwaith o'u gosod yn tarfu ar y rhwydwaith yn y tymor byr, ystyrir y bydd y buddion hirdymor a grëir drwy leihau gwaith cynnal a chadw a'u hoes estynedig o'i chymharu ag atalfeydd dur yn darparu enillion oes gyfan. |
| Atalfeydd concrit yn y llain ganol ar hyd llwybr cyfan yr A55 ac eithrio Pont Britannia, y twneli, ac Ynys Môn (59c) | | Hir | Er y byddai'r gwaith o'u gosod yn tarfu ar y rhwydwaith, ystyrir y bydd y buddion hirdymor a grëir drwy leihau gwaith cynnal a |

| Dewis (rhif y dewis) | Canolig | Hir | Rheswm dros eu datblygu |
|---|---|---|---|
| | | | chadw a'u hoes estynedig o'i chymharu ag atalfeydd dur yn darparu enillion oes gyfan. |
| Rampiau Mesur (S55) | Canolig | | Byddai gosod rampiau mesur mewn lleoliadau penodol yn cynyddu capasiti'r briffordd ac yn atal methiannau i lif y traffig a thagfeydd. |
| Gwibffyrdd Dwy Lôn - Lleoliadau Lle Ceir Llawer o Ddigwyddiadau Tua'r Dwyrain ac yng Nglannau Dyfrdwy (S56h) | Canolig | | Byddai'r wibffordd dwy lôn â chyffyrdd aml-lefel a thechnoleg i gefnogi trefnau gweithredol yn helpu i hwyluso llif traffig, lleihau tagfeydd ac yn gwella'r broses o reoli digwyddiadau, a fyddai yn eu tro yn darparu buddion diogelwch sylweddol ac yn gwella dibynadwyedd amseroedd teithiau. |
| Gwibffordd Dwy Lôn Mewn Lleoliadau Lle Ceir Llawer o Dagfeydd (S56f)<br><br>Gwibffordd Dwy Lôn (i'r rhwydwaith cyfan) (S56g) | | Hir | Mae llawer o'r dewisiadau eraill a argymhellir yn ffurfio blociau adeiladu'r wibffordd, fel atalfeydd concrit yn y llain ganol, mannau lloches mewn argyfwng, goruchwyliaeth teledu cylch cyfyng cynhwysfawr ac arwyddion negeseuon electronig.<br><br>Rhagwelir y byddai'r wibffordd dwy lôn yn cael ei hadeiladu mewn lleoliadau lle ceir llawer o dagfeydd tua'r dwyrain / yng Nglannau Dyfrdwy yn gyntaf (yn gysylltiedig â chynlluniau eraill yr ymrwymwyd iddynt) ac wedyn y byddai'n cael ei chyflwyno |

| Dewis (rhif y dewis) | Canolig | Hir | Rheswm dros eu datblygu |
|---|---|---|---|
| | | | ar draws lleoliadau eraill lle ceir llawer o dagfeydd, a'r coridor cyfan.<br>Pan fo cynlluniau yr ymrwymwyd iddynt eisoes ar waith ar hyn o bryd (e.e. Pont Dyfrdwy), dylid ystyried cynnwys gofynion gwibffordd (e.e. peipiau), pan fo hynny'n briodol. |
| Gwella Cyffyrdd Ansafonol (S58) | Canolig | | Byddai'r dewis hwn yn gwella diogelwch ar gyffyrdd ansafonol ac yn lleihau tarfu ar y rhwydwaith a achosir gan gerbydau yn cyrraedd/gadael y gerbytffordd yn araf. |
| Lleihau Nifer y Cyffyrdd (S69) | Canolig | | Byddai'r dewis hwn yn gwella diogelwch a llif traffig ar y gefnffordd. |
| Cyfyngu Caniatâd Cerbydau Nwyddau Trwm i Oddiweddyd pan fo'r Ffordd ar Raddiant Tuag i Fyny (S72a) | Canolig | | Lleihau oedi ar raddiant tuag i fyny a achosir gan gerbydau yn symud yn araf. |
| Cyflwyno Lôn Ddringo ar Allt Llaneurgain i Gyfeiriad y Gorllewin (S72b) | Canolig | | Galluogi defnyddwyr y ffordd i oddiweddyd cerbydau sy'n symud yn araf ar Allt Llaneurgain, gan leihau oedi. |
| Cyfyngiadau Cerbydau (S84) | Canolig | | Byddai gwahardd cerbydau sy'n symud yn araf yn helpu i gynnal llifau traffig cyson ac yn lleihau rhwystredigaeth gyrwyr. |

| **Dewis (rhif y dewis)** | **Canolig** | **Hir** | **Rheswm dros eu datblygu** |
|---|---|---|---|
| Unedau Negeseuon Electronig (Mewnlenwi Strategol) (S6a) | Canolig | | Byddai gosod unedau negeseuon electronig yn helpu i wella diogelwch, dibynadwyedd amseroedd teithiau a phrofiad cwsmeriaid drwy wella cyfathrebu â defnyddwyr y ffordd ynghylch statws y ffordd o’u blaenau. |
| Teledu Cylch Cyfyng (S7a) | Canolig | | Byddai gwella goruchwyliaeth teledu cylch cyfyng yn helpu i gyflymu amser ymateb i ddigwyddiadau a’u datrys ar y rhwydwaith er mwyn gallu gwneud penderfyniadau mwy cytbwys. |
| Radar Sidefire (Amddiffyn Ciwiau) (S8) | Canolig | | Byddai gosod Radar Sidefire i fonitro traffig, dosbarthiad a chyflymder cerbydau yn helpu i wella diogelwch, amseroedd teithiau a gwaith cynnal a chadw asedau. |
| Integreiddio Systemau a Data’r Ystafell Reoli (S12) | Canolig | | Byddai integreiddio systemau a data’r ystafell reoli yn gwella’r perfformiad presennol o ran cyfathrebu, rheoli’r rhwydwaith, adfer ar ôl digwyddiadau a byddai’n sicrhau bod gan staff yr ystafell reoli wybodaeth gywir mewn amser real. |
| Ystafell Reoli Integredig (S31) | Canolig | | Byddai’r dewis hwn yn ceisio cydgysylltu yr holl staff (NMWTRA, Gwasanaethau Brys ac ati) yn well. Cydnabyddir y byddai heriau ynghlwm â chydleoli’r holl staff mewn un lleoliad; |

| Dewis (rhif y dewis) | Canolig | Hir | Rheswm dros eu datblygu |
|---|---|---|---|
| | | | gallai gwelliannau i integreiddio staff fod yn ‘rhithwir’ drwy ddefnyddio TG / Systemau yn well. |
| Rhagor o Gilfannau (S57) | Canolig | | Byddai cilfannau mwy rheolaidd mewn argyfwng yn rhoi dewis amgen i’r llain galed, yn gwella amseroedd teithiau ac yn lleihau nifer y digwyddiadau a’u hyd. |
| Gwelliannau i Gilfannau ar yr A55 (S93) | Canolig | | Byddai gwelliannau i gysondeb a safon y cilfannau presennol yn arwain at leihad mewn digwyddiadau ac yn gwella ansawdd teithiau. Mae swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr twristiaeth ar yr amcan hwn. |
| Gwella’r Cyflenwad Dŵr ar gyfer y Gwasanaethau Brys (S102) | Canolig | | Byddai adolygiad cynhwysfawr o’r hydrantau a’r ffynonellau presennol sydd wedi’u lleoli ar hyd yr A55/A494 ynghyd â rhaglen i lenwi unrhyw fylchau yn caniatáu i’r gwasanaeth tân ymateb i ddigwyddiad yn gyflymach ac yn fwy effeithlon. |
| Gwella Mannau Gorffwys (S103) | Canolig | | Byddai darparu mannau gorffwys newydd a gwella rhai presennol ar draws y rhwydwaith yn annog gyrwyr i gymryd seibiant yn rheolaidd ac yn lliniaru effaith digwyddiadau sy’n ymwneud â blinder. Mae swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr twristiaeth ar yr amcan hwn. |

| Dewis (rhif y dewis) | Canolig | Hir | Rheswm dros eu datblygu |
|---|---|---|---|
| Adolygu Gwaharddiad Dim Mynediad ar gyffyrdd a ffyrdd ymuno ac ymadael (S114) | Canolig | | Adolygu gwaharddiad Dim Mynediad ar gyffyrdd a ffyrdd ymuno ac ymadael lle gallai modurwr yrru ar rwydwaith cefnffyrdd yr A55/A494 i'r cyfeiriad anghywir, i nodi a gweithredu gwelliannau sy'n lleihau'r risg y bydd hynny ac achosion cysylltiedig yn digwydd. |
| Arwydd Gwybodaeth Electronig Di-wifr i Yrwyr wrth Bont Waterloo (S77b) | Canolig | | Er mwyn gallu gweithredu a nodi llwybr gwyro yn gyflymach a helpu i leihau rhwystredigaeth a dryswch gyrwyr. |
| Cau Croesfannau i Gerddwyr ar yr un Gwastad (S71a)<br><br>Cau ac Ailgyfeirio Croesfannau i Gerddwyr ar yr un Gwastad (S71b)<br><br>Cau Croesfannau i Gerddwyr ar yr un Gwastad a Chreu Llwybrau Newydd (71c)<br><br>Cau Croesfannau i Gerddwyr ar yr un Gwastad a Chynnig Darpariaeth Amgen (S71d) | Canolig | | Amryw o ddewisiadau sy'n canolbwyntio ar gau croesfannau ar yr un gwastad ar y gefnffordd. Byddai hyn yn dileu'r perygl o ddigwyddiadau yn sgil presenoldeb cerddwyr ar y gerbytffordd.<br><br>Bydd angen datblygu hyn ymhellach er mwyn canolbwyntio ar yr is-ddewisiadau penodol a sicrhau cydgysylltu â llwybrau teithio llesol ehangach a darparu trefniadau amgen addas. |

| Dewis (rhif y dewis) | Canolig | Hir | Rheswm dros eu datblygu |
|---|---|---|---|
| Gwella Llwybrau Presennol i Ddefnyddwyr Heblaw Modurwyr sydd wrth ymyl yr A55 (S108) | Canolig | | Byddai gwyro a gwella'r llwybrau presennol i ddefnyddwyr heblaw modurwyr sydd wrth ymyl yr A55 yn dileu'r perygl o ddigwyddiadau yn sgil presenoldeb cerddwyr wrth ymyl y wibffordd. |

# Crynodeb ac Argymhellion

Datblygwyd a gweithredwyd yn flaenorol **Ddewisiadau Enillion Cyflym** yr ystyriwyd y byddent yn fuddiol ac yn addas i'w gweithredu ar ôl cwblhau WelTAG Cam 1 erbyn mis Mai 2018. Mae **Dewisiadau Tymor Byr** wedi'u cynnig ar gyfer eu gweithredu yn ystod Astudiaeth WelTAG Cam 2 gyda chefnogaeth gan randdeiliaid allweddol. Bydd gweithredu'r mesurau tymor byr hyn, sy'n dod o dan y tair thema cyfathrebu, llwybrau gwyro a rheoli digwyddiadau yn bennaf, yn ychwanegu at y buddion yn sgil yr ymyriadau enillion cyflym. Gweithredwyd dewisiadau Tymor Byr erbyn mis Mai 2019.

Mae'r dewisiadau hyn wedi bwrw ymlaen i WelTAG Cam 3, 4 a 5 eisoes a datblygwyd Cynllun Monitro a Gwerthuso y cytunwyd arno i nodi buddion y dewisiadau hyn i gydnerthedd y rhwydwaith.

Dylid bwrw ymlaen bellach â **Dewisiadau Tymor Canolig (erbyn mis Mai 2020) a Hir** yr argymhellir y dylid eu datblygu ymhellach yn rhan o'r Astudiaeth WelTAG Cam 2 hwn.

Caiff y dewisiadau a ffefrir eu datblygu ymhellach a chaiff eu heffeithiau/buddion eu harfarnu. Yn sgil nifer a graddfa'r dewisiadau y cynigir y dylid bwrw ymlaen â nhw, dylid datblygu cynllun gweithredu realistig a chyflawnadwy sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau; sy'n cydgysylltu â chynlluniau eraill yr ymrwymwyd iddynt ar y rhwydwaith; ac sy'n cyfochri â rhaglenni cyllid.

Gellir categoreiddio dewisiadau tymor canolig a hir i ddau ddull cyflawni ac ariannu gwahanol; y rhai hynny sy'n seiliedig ar weithrediadau, sydd galw am gymorth refeniw parhaus, a'r rhai hynny sy'n seiliedig ar seilwaith, sy'n galw am fuddsoddiad cyfalaf. I symleiddio'r dull o reoli gweithrediad y mesurau hyn yn y dyfodol, byddai'n ddoeth cyfochri ymyriadau gweithredol a seilwaith yn becynnau o fesurau sy'n canolbwyntio ar eu rhanddeiliaid unigol, dulliau ariannu a llwybrau caffael.

Dylid ymchwilio ymhellach i **ddewisiadau y mae angen rhagor o ymchwil iddynt neu sydd i'w trosglwyddo i eraill** a chadarnhau eu statws cyn eu symud trwy gamau WelTAG.

### Crynodeb o'r dewisiadau yr argymhellir eu datblygu

Mae'r holl ddewisiadau y nodwyd y dylid eu hystyried ymhellach, gan gynnwys y rhai y bydd eraill yn eu datblygu neu y mae angen rhagor o ymchwil iddynt, ynghyd â'u hamserlenni gweithredu cysylltiedig, wedi'u crynhoi ar y dudalen nesaf.

Gwelir ffigurau yn dangos yr ymyriadau Enillion Cyflym a Thymor Byr cyfunol, ynghyd â'r dewisiadau tymor canolig yr argymhellir eu datblygu, gweld dogfen ar wahân, yn Atodiad A.

**Tabl 7 – Crynodeb o'r Opsiynau a Argymhellir ar gyfer Dilyniant – Cyfathrebu**

| Opsiwn | Disgrifiad | Cyflym | Byr | Canolig | Hir |
|---|---|---|---|---|---|
| **S5** | Data Cerbyd Symudol Amser Real – Amseroedd Teithiau ar Unedau | | Byr | | |
| **S6c** | Templedi a Negeseuon Ymgyrchoedd Unedau Negeseuon Electronig (VMS) | | Byr | | |
| **S28** | Tîm Cyfathrebu Gwell | Cyflym | | | |
| **S63** | Cydweithredu trawsffiniol | | Byr | | |
| **S83** | Amserlen Ffyrdd | Cyflym | | | |
| **S86** | Ymgyrch Newid Ymddygiad Gyrwyr | | Byr | | |

**Tabl 8 – Crynodeb o'r Opsiynau a Argymhellir ar gyfer Dilyniant – Rheoli Asedau**

| Opsiwn | Disgrifiad | Cyflym | Byr | Canolig | Hir |
|---|---|---|---|---|---|
| **S1 a S2** | Ap Ffonau Clyfar Rheoli Digwyddiadau ac Asedau | | Byr | | |
| **S19** | Adolygu a Gwella Prosesau Cynnal a Chadw | | | Canolig | |
| **S20** | Gwaith Cynnal a Chadw Ataliol | | | Canolig | |
| **S21** | Mannau Defnydd All-lein | | | Canolig | |
| **S22**** | Monitro Asedau Uwch Dechnoleg | | | Canolig | |
| **S23** | Gwaith Cynnal a Chadw ar y Llwybr | | | Canolig | |
| **S24** | Cynnal a Chadw Gwell yn y Gaeaf | | Byr | | |
| **S26** | Manyleb Asedau Hirdymor | | | Canolig | |
| **S59a** | Atalfeydd Concrit yn y Llain Ganol mewn Lleoliadau sy’n Agored Iawn i Wrthdrawiadau Traffig Ffordd | | | Canolig | |
| **S59c** | Atalfeydd Concrit yn y Llain Ganol ar hyd yr A55 ac eithrio Ynys Môn. Heb gynnwys Pont Britannia, twneli a rhannau ag atalfeydd concrit | | | | Hir |
| **S39** | Cyfrifoldeb Staff Gwell | | Byr | | |
| **S43** | Monitro Gwasanaethau | | Byr | | |
| **S44** | Rhaglen Ariannu | | | Canolig | |
| **S109** | Diogelu rhag Erydu Arfordirol | | | | Hir |
| **S106*** | Ailgynllunio nenbontydd i Atal Digwyddiadau Hunan-niweidio | | | | Hir |

**Tabl 9 – Crynodeb o'r Opsiynau a Argymhellir ar gyfer Dilyniant – Capasiti a Galw**

| Opsiwn | Disgrifiad | Cyflym | Byr | Canolig | Hir |
|---|---|---|---|---|---|
| **S55** | Rampiau Mesur | | | Canolig | |
| **S56f** | Gwibffordd Dwy Lôn (lleoliadau lle ceir llawer o dagfeydd) | | | | Hir |
| **S56g** | Gwibffordd Dwy Lôn (rhwydwaith cyfan) | | | | Hir |
| **S56h** | Gwibffyrdd (lleoliadau lle ceir llawer o ddigwyddiadau tua'r dwyrain ac yng Nglannau Dyfrdwy) | | | Canolig | |
| **S58** | Gwella Cyffyrdd Ansafonol | | | Canolig | |
| **S65** | Dadansoddi Perfformiad | | Byr | | |
| **S69** | Lleihau Nifer y Cyffyrdd | | | | Hir |
| **S72a** | Cyfyngu Caniatâd Cerbydau Nwyddau Trwm i Oddiweddyd pan fo'r Ffordd ar Raddiant Tuag i Fyny | | | | Hir |
| **S72b** | Cyflwyno Lôn Ddringo ar Allt Llaneurgain | | | | Hir |
| **S84** | Cyfyngiadau Cerbydau | | | | Hir |
| **S97**** | Adolygu Statws Arbennig C17 i C23 yr A55 | | | | Hir |

**Tabl 10 – Crynodeb o'r Opsiynau a Argymhellir ar gyfer Dilyniant – Rheoli Digwyddiadau**

| Opsiwn | Disgrifiad | Cyflym | Byr | Canolig | Hir |
|---|---|---|---|---|---|
| **S3** | Meddalwedd Darganfod Digwyddiadau Teledu Cylch Cyfyng | Cyflym | | | |
| **S4** | Prynu INRIX - Data Cerbyd Symudol Amser Real | Cyflym | | | |
| **S6a** | Unedau Negeseuon Electronig – Mewnlenwi Strategol | | | Canolig | |
| **S6b** | Unedau Negeseuon Electronig Symudol | Cyflym | | | |
| **S7a** | Teledu Cylch Cyfyng | | | Canolig | |
| **S7b** | Teledu Cylch Cyfyng Di-wifr | Cyflym | | | |
| **S8** | Radar Sidefire (Amddiffyn Ciwiau) | | | Canolig | |
| **S12** | Integreiddio Systemau a Data'r Ystafell Reoli | | | Canolig | |
| **S15** | Targedau Perfformiad – Platfform Dadansoddi Busnes | | Byr | | |
| **S16a** | Achub Cerbydau | | Byr | | |
| **S16b** | Gwasanaeth Achub Cerbydau Am Ddim mewn Mannau Lle Ceir Llawer o Ddigwyddiadau | Cyflym | | | |
| **S31a** | Ystafell Reoli Integredig | | | Canolig | |
| **S31b** | Ystafell Reoli Integredig Rithwir | | | Canolig | |
| **S36** | Ymestyn Gweithrediad Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru | Cyflym | | | |
| **S37** | Timau Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru Ychwanegol | Cyflym | | | |

| Opsiwn | Disgrifiad | Cyflym | Byr | Canolig | Hir |
|---|---|---|---|---|---|
| **S36a**** | Ymestyn Gweithrediad Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru i 24 awr | | | Canolig | |
| **S46** | Gwella Gweithrediad Mannau Croesi Mewn Argyfwng | | Byr | | |
| **S57** | Cilfannau Ychwanegol | | | Canolig | |
| **S85** | Gorfodaeth Cyflymder Cyfartalog ar Allt Rhuallt | Cyflym | | | |
| **S93** | Gwelliannau i Gilfannau ar yr A55 | | | Canolig | |
| **S98** | Contractwr i Roi Wyneb Newydd ar Ffyrdd mewn Argyfwng | | Byr | | |
| **S100**** | Synwyryddion Pwysau yn symud a Synwyryddion Pwysedd Teiars | | | Canolig | |
| **S102** | Gwella'r Cyflenwad Dŵr ar gyfer y Gwasanaethau Brys | | | Canolig | |
| **S103** | Gwella Mannau Gorffwys | | | Canolig | |
| **S105** | Rhagor o Orfodi Drwy ANPR | | | Canolig | |
| **S107**** | Darparu Safleoedd Pontydd Pwyso mewn lleoliadau addas | | | Canolig | |
| **S114** | Gwahardd Mynediad ar gyffyrdd a ffyrdd ymuno ac ymadael | | | Canolig | |

**Tabl 11 – Crynodeb o'r Opsiynau a Argymhellir ar gyfer Dilyniant – Llwybr Arallgyfeirio**

| Opsiwn | Disgrifiad | Cyflym | Byr | Canolig | Hir |
|---|---|---|---|---|---|
| **S47**** | Pont Britannia – Camau Lliniaru yn ystod Gwyntoedd Cryfion | | | | Hir |
| **S73** | Gweithdrefnau Gweithredu Llwybrau Gwyro | | Byr | | |
| **S74** | Arwyddion Symbol Strategol Llwybrau Gwyro | | Byr | | |
| **S75** | Arwyddion Symbol Tactegol Llwybrau Gwyro | | Byr | | |
| **S76** | Cynlluniau Rheoli Traffig Llwybrau Gwyro | | Byr | | |
| **S77b** | Arwydd Gwybodaeth Electronig Di-wifr i Yrwyr wrth Bont Waterloo | | | Canolig | |
| **S81** | Gwell Cynllunio Ffyrdd | | Byr | | |
| **S87*** | Twnnel Newydd Penmaenbach | | | | Hir |
| **S90*** | Arglawdd Morol Tua'r Dwyrain Penmaenbach | | | | Hir |
| **S91**** | Unedau Negeseuon Electronig wrth Ymyl y Ffordd ar Bont Britannia i Reoli Traffig | | | Canolig | |
| **S92**** | Taflwyr Gwynt ar Bont Britannia | | | | Hir |
| **S94** | Gwelliannau Gweithredol ar Bont Britannia | | Byr | | |
| **S113**** | Gwella Llwybrau Gwyro Tactegol Mannau Cul | | | Canolig | |

**Tabl 12 – Crynodeb o'r Opsiynau a Argymhellir ar gyfer Dilyniant – Diogelu at y dyfodol**

| Opsiwn | Disgrifiad | Cyflym | Byr | Canolig | Hir |
|---|---|---|---|---|---|
| **S9a**** | Technoleg Ffordd Glyfar – Mannau Gwefru Cerbydau Trydan | | | Canolig | |
| **S9b**** | Technoleg Ffordd Glyfar – Ffordd Solar | | | | Hir |
| **S9c**** | Technoleg Ffordd Glyfar – Trosglwyddo Pŵer Di-wifr | | | | Hir |
| **S10**** | Coridor Cerbydau Cysylltiedig | | | | Hir |

**Tabl 13 – Crynodeb o'r Opsiynau a Argymhellir ar gyfer Dilyniant – Teithio Cynaliadwy**

| Opsiwn | Disgrifiad | Cyflym | Byr | Canolig | Hir |
|---|---|---|---|---|---|
| **S64*** | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus | | | | Hir |
| **S67a** | Gwella croesfannau i ddefnyddwyr heblaw modurwyr – Tanffordd Traeth Penmaenmawr | | Byr | | |
| **S67b*** | Gwella croesfannau i ddefnyddwyr heblaw modurwyr – Cyfnewidfa Glan Conwy | | | Canolig | |
| **S67c*** | Gwella pontydd troed i ddefnyddwyr heblaw modurwyr | | | | Hir |
| **S71a** | Cau croesfannau i gerddwyr ar yr un gwastad | | | Canolig | |
| **S71b** | Cau ac ailgyfeirio croesfannau i gerddwyr ar yr un gwastad | | | Canolig | |
| **S71c** | Cau croesfannau i gerddwyr ar yr un gwastad a chreu llwybrau newydd | | | Canolig | |
| **S71d** | Cau croesfannau i gerddwyr ar yr un gwastad a chynnig darpariaeth amgen | | | Canolig | |

| Opsiwn | Disgrifiad | Cyflym | Byr | Canolig | Hir |
|---|---|---|---|---|---|
| **S108** | Gwella llwybrau defnyddwyr heblaw modurwyr presennol sydd wrth ymyl yr A55 | | | Canolig | |
| **S111*** | Hybu Trafnidiaeth Gynaliadwy | | | Canolig | |

* Dewisiadau i'w datblygu gan eraill. ** Dewisiadau y mae angen rhagor o ymchwil iddynt.

# Y Camau Nesaf

Gellir defnyddio'r WelTAG Cam 2: Achos Busnes Amlinellol hwn bellach i:

- Roi cyfiawnhad yn y dyfodol o'r rhesymau pam mae mesurau penodol wedi'u hargymell ar gyfer eu hystyried ymhellach er bod eraill wedi eu dileu;
- Paratoi strategaeth gyflawni a rhaglen ariannu a bwrw ymlaen â mesurau i wella cydnerthedd coridor trafnidiaeth yr A55|A494; ac
- Ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid ar fesurau a gyflawnir orau gan sefydliadau heblaw am NMWTRA.

Bydd ystyriaethau allweddol yn cynnwys:

Newidiadau i bolisi a mentrau Llywodraeth Cymru y mae angen canolbwyntio arnynt o'r newydd mewn ystod o feysydd, gan gynnwys:

- Cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru;
- Canllawiau interim Llywodraeth Cymru ar gyfrifyddu carbon; ac
- Effaith Covid-19

Gan nad yw'r dewisiadau lefel uchel a argymhellir yn yr adroddiad yn cymharu dewisiadau yn uniongyrchol, yn hytrach maent yn cynnig rhaglen o ymyriadau ar draws coridor yr A55/A494 i wella cydnerthedd, ni fyddai'r newidiadau a amlinellir uchod yn newid y dewisiadau eu hunain yn uniongyrchol, felly nid yw'n debygol y bydd angen ailystyried WelTAG Cam 2 er mwyn newid y canlyniad. Fodd bynnag, bydd newidiadau polisi a mentrau yn llunio sut y caiff y dewisiadau eu datblygu ymhellach a'u harfarnu pan ddigwydd hyn.

Isod ceir canllaw amlinellol ar gyfer y dull arfaethedig o ymgorffori rhagor o newidiadau polisi yng nghamau nesaf yr astudiaeth er mwyn sicrhau y caiff y syniadau diweddaraf, polisïau a chyfleoedd ehangach eu hystyried:

- Adolygu amcanion i sicrhau perthnasedd i astudiaethau penodol a pholisïau cyfredol;
- Cysylltiadau â dyheadau ehangach llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru o ran darpariaeth teithio llesol;
- Ystyried sut y gall cynlluniau gefnogi Metro Gogledd Cymru;
- Ystyried y swyddogaeth lleihau carbon yn y broses ddylunio a chynnwys cyfrifyddu carbon yn yr arfarniad;
- Cyfrannu at welliannau Coridor Gwyrdd ac ystyried enillion net bioamrywiaeth;

- Adolygu cysylltiadau â phrosiectau cyfagos a rhanbarthol ehangach megis Coridor Sir y Fflint;
- Ystyried cyfleoedd i wella'r coridor llwybrau ehangach; ac
- Adolygiad holistaidd o reoli asedau yn ardal yr astudiaeth.

Y camau nesaf ar gyfer Llywodraeth Cymru a NMWTRA yw:

- Cadarnhau trefniadau ar gyfer ariannu datblygiad yr astudiaeth hon yn y dyfodol;
- Dyrannu cyllid addas er mwyn gallu gweithredu'r mesurau tymor byr;
- Datblygu cynlluniau gwerthuso a monitro ar gyfer y dewisiadau Enillion Cyflym a Thymor Byr sydd wedi'u gweithredu a sicrhau bod buddion cydnerthedd yn sgil y dewisiadau hyn yn cael eu nodi yn unol â chanllawiau WelTAG;
- Cytuno y gellir bwrw ymlaen â mesurau tymor canolig a hir fel pecyn o ymyriadau i'w hystyried ymhellach;
- Cydgysylltu â'r sefydliad(au) sy'n gyfrifol am ymgymryd â gwaith pellach;
- Cydgysylltu ag Awdurdodau Lleol i gytuno ar y ffordd orau o drin a gweithredu pecyn o fesurau teithio llesol sy'n darparu buddion i lesiant cenedlaethau'r dyfodol y tu hwnt i gylch gwaith yr astudiaeth hon;
- Cydgysylltu â Trafnidiaeth Cymru i gytuno ar y ffordd orau o drin a gweithredu pecyn o fesurau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n darparu buddion i lesiant cenedlaethau'r dyfodol y tu hwnt i gylch gwaith yr astudiaeth hon;
- Cydgysylltu ag Awdurdodau Lleol i gytuno ar y ffordd orau o drin a gweithredu pecyn o fesurau i wella llwybrau gwyro sy'n darparu buddion i'r gymuned leol, gan fod o fudd i goridor trafnidiaeth yr A55|A494 yn ystod cyfnodau o angen;
- Cynnal asesiad dewisiadau manylach o'r mesurau sy'n seiliedig ar dechnoleg a nodwyd gyda'r nod o ddiogelu'r rhwydwaith at y dyfodol er mwyn nodi tueddiadau tebygol mewn datblygiadau technolegol. Pan fo'n bosibl sefydlu Achos Busnes Amlinellol mwy cadarn i ymyrryd nawr, dylid cynnig y rhain i'w hystyried ymhellach;
- Ystyried sut y gellir gweithredu argymhellion yr astudiaeth hon ym mhrosiectau seilwaith trafnidiaeth yr ymrwymwyd iddynt ar hyn o bryd, fel Gosod Pont Dyfrdwy Newydd a Choridor Sir y Fflint (Llwybr Coch); a
- Gan fod yr astudiaeth gychwynnol hon yn canolbwyntio ar gydnerthedd y rhwydwaith priffordd, efallai bydd angen gwaith ategol ar hyd y coridor ar gyfer teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn darparu cydnerthedd y rhwydwaith trafnidiaeth ehangach. Argymhellir y dylid dwyn cynigion y cynllun ymlaen i ystyried, yn fanwl,

newidiadau diweddar i bolisi trafnidiaeth Llywodraeth Cymru a ddiffinnir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn rhan o gam WelTAG Cam 3, yr Achos Busnes Llawn, neu os yw'n briodol, ailystyried WelTAG Cam 1 a 2 er mwyn nodi gofynion a diweddaru'r adroddiadau cyn symud ymlaen i WelTAG 3.

1 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

**wsp.com**